

Gwella mynediad at wasanaethau gofal lliniarol ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn Ne-ddwyrain Caerdydd

Ariennir Gofalu
am ofalwyr mewn
cymunedau
wedi'u hadfywio
yng Nghymru gan
y Gronfa Loteri
Fawr Cymru.



Cynnwys

Rhagair

Vaughan Gething, AC dros Dde Caerdydd a Phenarth a Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi

Cyflwyniad

Methodoleg

Rhan 1: Y prif rwystrau i gael mynediad at ofal hosbis ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleihafri foedd Ethnig yn Ne-ddwyrain Caerdydd

Rhan 2: Sut i helpu lleihau'r rhwystrau i fynediad a nodwyd

Rhan 3: Newidiadau a wnaed ac a gynlluniwyd yn Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro er mwyn gwella mynediad ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleihafri foedd Ethnig

Ynglŷn â Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro

Rhagair



Rydw i'n falch iawn o gael y cyfle i ysgrifennu'r rhagair ar gyfer yr adroddiad pwysig hwn.

Yn fy swyddogaeth fel Aelod o'r Cynulliad, rydw i'n cynrychioli'r etholaeth fwyaf yng Nghymru yn ôl maint y boblogaeth. Yn ogystal, mae'n un o'r rhai mwyaf amrywiol, gyda nifer fawr o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r cyfoeth a'r gymysgfa o ddiwylliannau a phobl ar draws y byd ym mhorthladdoedd Caerdydd a Phenarth yn rhan o'n hanes ar y cyd a'n dyfodol gyda'n gilydd. Mae'n batrwm sy'n cael ei ailadrodd ar draws nifer o drefi a dinasoedd yng Nghymru a Phrydain. Er gwaethaf derbyn a dathlu amrywiaeth eang y Gymru fodern, mae rhwystrau yn parhau ynglŷn â mynediad ac anghydraddoldeb mewn darpariaeth y mae teuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu hwynebu. Gwyddom yn rhy dda os na ymdrinnir â'r anghydraddoldeb hwn, gall achosi problemau sylweddol i bobl drwy eu bywydau. Ni ddylai fod yn syndod i weld fod angen ymdrin â'r un heriau hynny er mwyn sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel ar ddiwedd bywyd ar gael i'n cymunedau i gyd.

Mae'r prosiect Marie Curie hwn wedi cyflawni llawer eisoes a gwn ei fod yn dymuno cyflawni llawer mwy. Mae'n glod i Marie Curie fod yr elusen wedi cydnabod realaeth yr her hon ac mae'n barod i gymryd camau ymarferol i ymdrin ag ef.

Gobeithiaf y byddwch yn darganfod yr adroddiad hwn mor ddiddorol a llawn gwybodaeth ag y gwnes i, ac y byddwch, fel fi, yn dymuno llwyddiant pellach i'r prosiect pwysig hwn yn y dyfodol



Vaughan Gething

AC dros Dde Caerdydd a Phenarth
Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi

Cyflwyniad

Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio. Mae pobl yn byw gydag iechyd gwael a chyda phroblemau mwy cymhleth am gyfnod hirach. Mae'r pwysau dilynol ar adnoddau cyfyngedig y system gofal iechyd a chymdeithasol wedi cynyddu'r angen am fodelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau.

Mae Marie Curie ar flaen y gad wrth arloesi mewn gwasanaethau gofal diwedd bywyd yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda GIG Cymru a phartneriaid eraill er mwyn cwrdd â gofynion a nodau strategol cenedlaethol a lleol. Rydym yn cefnogi pobl drwy Gymru drwy ein gwasanaeth nyrsio cymunedol ac yn ein Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro, ym Mhenarth.

Lleolir ein hosbis yn agos at Lan yr Afon, Grangetown a Butetown; ardaloedd gyda chanran uchel o breswylwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiarioedd Ethnig. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'n gwasanaethau hosbis a chymunedol ymysg y grwpiau hyn wedi bod yn isel iawn.

Ym mis Medi 2012, gwnaethom lansio prosiect tair blynedd, wedi'i gyllido gan y Loteri Fawr, o'r enw *Gwella Mynediad at Wasanaethau Gofal Lliniarol ar gyfer Cymunedau Lleiarioedd Ethnig yn Ne-ddwyrain Caerdydd*.

Sefydlwyd y prosiect er mwyn cwrdd â thri phrif amcan:

1. Gwella cysylltiadau gydag arweinwyr cymunedol Du, Asiaidd a Lleiarioedd Ethnig ac asiantaethau yn y gymuned (yn cynnwys practisau meddygon teulu).
2. Lleihau'r rhwystrau i fynediad at wasanaethau ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiarioedd Ethnig.
3. Cynyddu'r gefnogaeth ar gyfer cleifion o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiarioedd Ethnig gyda salwch sy'n cyfyngu ar eu bywyd a'u teuluoedd.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r prif rwystrau i gael mynediad at ofal hosbis o bersbectif pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiarioedd Ethnig sy'n byw yng Nghaerdydd. Mae'n cynnwys y ffyrdd a awgrymwyd ganddyn nhw i dorri'r rhwystrau hyn, ynghyd â negeseuon dysg allweddol ar gyfer Marie Curie a darparwyr gofal iechyd eraill. Yn ogystal, mae'n tynnu sylw at welliannau a wnaed ac a gynlluniwyd yn Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro o ganlyniad uniongyrchol i'w hargymhellion.

Methodoleg

Gwahoddwyd saith grŵp trafod, yn cynnwys 67 o bobl, i Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro rhwng Tachwedd 2012 ac Ionawr 2014. Cafodd y grwpiau daith dywysedig o gwmpas yr hosbis a chafodd y gwasanaethau eu hesbonio. Roedd y grwpiau'n cynnwys:

- dynion a merched
- ethnigrwydd a ffydd cymysg
- cynrychiolwyr o sefydliadau cymunedol
- aelodau o'r cymunedau
- pobl broffesiynol
- cynghorwyr lleol
- rhanddeiliaid eraill

Cyfranogodd 64 o bobl eraill mewn grwpiau trafod mewn digwyddiad yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn Ebrill 2014. Roedd yr holl gyfranogwyr yn astudio Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) ac o wahanol ethnigrwydd ac oedrannau.

Gofynnwyd cwestiynau trafod o restr osod i'r holl gyfranogwyr.

Rhan 1: Y prif rwystrau i gael mynediad at ofal hosbis ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig yn Ne-ddwyrain Caerdydd

Mae Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro wedi'i leoli yn agos at ardaloedd gyda chanran uchel o breswylwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'n gwasanaethau hosbis a chymunedol ymysg y grwpiau hyn wedi bod yn isel iawn.

Gofynnwyd i'r grwpiau trafod amlinellu beth yr oedden nhw'n ei feddwl oedd y prif rwystrau i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig gael mynediad at wasanaethau'r hosbis.

Mae Diagram 1 yn crynhoi eu hatebion.

Mae'r bennod hon yn cynnwys asesiad o bob rhwystr, yn seiliedig ar ymatebion y cyfranogwyr, ynghyd â neges ddysgu allweddol ar gyfer Marie Curie a darparwyr gofal eraill.

Diagram 1: Rhwystrau ymddangosiadol y cyfranogwyr i gael mynediad at wasanaethau hosbis



Rhwystrau

Diffyg ymwybyddiaeth

Roedd pob grŵp yn teimlo mai'r prif rwystr oedd diffyg ymwybyddiaeth o'r hosbis, ei gwasanaethau a'r amrediad o gyflyrau y mae'n eu cefnogi.

Er gwaethaf y ffaith bod rhai cyfranogwyr wedi gweithio yng Nghaerdydd am lawer o flynyddoedd (yn cynnwys mewn gofal iechyd), nid oedd y rhan fwyaf erioed wedi bod yn yr hosbis ac nid oedd y rhan fwyaf wedi clywed am yr hosbis nac yn gwybod ei bod yn gofalu am gleifion gyda salwch terfynol, ac nid canser yn unig.

Roedd y rhai hynny a oedd wedi clywed am yr hosbis yn teimlo bod stigma ynghlwm â hi oherwydd cymerir yn ganiataol bod cael mynediad i hosbis yn arwydd o ddiwedd bywyd.

Nid oedd y rhan fwyaf yn ymwybodol bod yr hosbis yn helpu teuluoedd a gofalwyr yn ogystal, ac roedden nhw'n teimlo bod gwasanaethau gofal iechyd yn gyffredinol wedi'u canolbwyntio ar y claf yn unig, tra bod perthnasau a gofalwyr yn cael eu hanwybyddu ar y cyfan.

Roedd gan gyfranogwyr a oedd yn ffoaduriaid a/neu geiswyr lloches ychydig iawn o wybodaeth am wasanaethau gofal iechyd yn gyffredinol.

Dysgu allweddol

Mae angen i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gael gwybod a'u haddysgu ynglŷn â gofal lliniarol. Yn ogystal, mae angen i wasanaethau gofal lliniarol gysylltu mwy gyda pherthnasau.

Terminoleg

Nid oedd geiriau fel 'hosbis', 'gofal lliniarol' a 'symptomau' yn rhai a oedd yn cael eu deall yn hawdd gan gyfranogwyr.

Dysgu allweddol

Mae angen esbonio geiriau fel 'gofal lliniarol' a 'hosbis'. Hyd yn oed, pan maen nhw wedi cael eu cyfieithu nid oes gair/cysyniad cymharol yn aml mewn ieithoedd cymunedol.

Ymddiriedaeth

Roedd pryderon a diffyg ymddiriedaeth a ffydd yn gyffredinol mewn gwasanaethau gofal iechyd. Roedd enghreifftiau yn cynnwys pryderon ynghylch pwrpas profion meddygol ac ofn y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd y plant.

Dysgu allweddol

Mae angen i wasanaethau gofal iechyd fod yn ymwybodol y gall diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau fod oherwydd profiadau yn y gorffennol a bod angen iddyn nhw ennill ymddiriedaeth y gymuned.

Deiet

Roedd bwyd a pharatoi bwyd yn briodol yn bwysig i gyfranogwyr. Roedden nhw'n dweud y byddai'n cymryd rhan yn eu penderfyniad i ddefnyddio gwasanaeth. Roedd rhai yn teimlo bod gwasanaethau wedi'u sefydlu yn bennaf i ddarparu ar gyfer deietau Prydeinig gwyn, tra nid oedd eraill yn gweld hyn fel pryder oherwydd eu bod yn teimlo y byddai teuluoedd yn dod â bwyd ar gyfer eu hanwyliaid.

"Mae'r bwyd yn dda, mae'n gwneud i bobl deimlo eu bod adref."

Dysgu allweddol

Mae'n bwysig tawelu meddwl cleifion a theuluoedd y gall yr hosbis ddarparu ar gyfer bwyd sy'n briodol yn grefyddol ac yn ddiwylliannol.

Laith

Roedd iaith yn cael ei weld fel rhwystr, yn arbennig felly ar gyfer aelodau hŷn o'r gymuned. Roedd cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn bwysig bod cyfieithwyr ar y pryd ar gael i esbonio beth oedd yn digwydd tra'r oedd cleifion yn derbyn gofal.

Fodd bynnag, roedd teimladau cymysg ynghylch a oedd cyfieithu gwybodaeth i ieithoedd cymunedol yn bwysig. Roedd rhai yn teimlo nad oedd yn gost-effeithiol oherwydd gallai'r teulu neu aelod o'r gymuned gyfieithu'r wybodaeth i gleifion a gofawyr.

Dysgu allweddol

Mae'n bwysig helpu cleifion i ddeall triniaethau meddygol mewn ffordd sy'n glir i'r claf a'r teulu fel ei gilydd.

Diwylliant a chrefydd

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oedd gwasanaethau gofal lliniarol wedi'u sefydlu ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac roedd ganddyn nhw bryderon a oedd yr hosbis yn briodol yn ddiwylliannol a chrefyddol.

Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn siarad am bwysigrwydd gweddïo a chyfleusterau ymolchi ar gyfer cleifion a theuluoedd. Roedden nhw'n hapus i rannu ystafell ddistaw'r hosbis (ystafell a ddefnyddir ar gyfer myfyrio'n ddistaw neu weddïo aml-ffydd) gyda chrefyddau gwahanol ond roedden nhw'n teimlo y dylai'r ystafell gael awyrgylch ddistaw a bod yn rhydd oddi wrth ddodrefn ac annibendod.

Yn ogystal, roedd trafodaethau ynghylch yr angen am arteffactau ar gyfer gweddïo, yn cynnwys matiau gweddïo, arwyddion ar gyfer cyfeiriad Mecca, gleiniau gweddïo Tassibee, Cwrân, lluniau neu gerfluniau Duwiau Hindwaidd a chopi o lyfr sanctaidd Geeta.

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y staff angen deall defodau gweddïo a gallu helpu pe bai'r angen. Yn ogystal, roedden nhw'n teimlo y dylai teuluoedd fod yn sicr o gysylltiadau'r hosbis gyda chyrff crefyddol er mwyn sicrhau ei bod yn deall yn llawn pwysigrwydd defodau ar ôl i glaf farw ac yn gallu eu cefnogi.

Dysgu allweddol

Mae'n bwysig i sicrhau cleifion a theuluoedd bod yr hosbis yn ddiwylliannol gymwys, ac yn parchu a chefnogi anghenion crefyddol mewn iaith sy'n ddealladwy i gleifion a theuluoedd.

Materion y ddau ryw

Roedd cyfranogwyr yn dweud y gallai materion y ddau ryw wahardd pobl rhag cael mynediad at y gwasanaethau. Roedden nhw'n teimlo'n gryf iawn am yr angen ar gyfer wardiau a baeau un rhyw, ond nid oedd ganddyn nhw broblem gyda staff clinigol o'r ddau ryw. Yn ogystal, roedden nhw'n teimlo y dylai grwpiau lles gwrywaidd a benywaidd fod ar wahân

Dysgu allweddol

Mae'n bwysig i gleifion o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gael wardiau a baeau ar gyfer rhyw benodol.

Trafnidiaeth

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod trafndiaeth yn rhwystr i gael mynediad at wasanaethau hosbis ac i ymweld â phobl a oedd yn derbyn gofal. Y ffactorau allweddol oedd cyfuniad o ddiffyg trafndiaeth eu hunain, anawsterau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a'r pellter rhwng yr hosbis a chymunedau lleol.

Dysgu allweddol

Mae'n bwysig i bobl fod yn ymwybodol o amseroedd a manylion gwasanaethau bws er mwyn hwyluso ymweld â'r hosbis.

Diffyg amrywiaeth staff

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen mwy o staff o gefndiroedd amrywiol, yn cynnwys gwirfoddolwyr. Os nad oedd hyn yn bosibl, roedd cyfranogwyr yn teimlo y dylai staff gael hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ynghylch anghenion cleifion a theluoedd o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Dysgu allweddol

Mae cael staff a gwirfoddolwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn helpu i dorri'r rhwystrau, adeiladu ymddiriedaeth a rhoi neges o amrywiaeth.

Meddygon Teulu

Dywedodd cyfranogwyr nad oedd camddealltwriaeth ynghylch gwasanaethau bob amser yn gysylltiedig ag iaith ac yr oedd rhai'n ansicr a oedd meddygon teulu yn gwbl ymwybodol o wasanaethau Marie Curie.

Roedden nhw'n teimlo y dylai meddygon teulu gyfeirio mwy o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at Marie Curie ac esbonio'n llawn i'r cleifion a'r gofalwyr pa wasanaethau a oedd ar gael, yn cynnwys gofal seibiant. Roedden nhw'n credu yn ogystal bod gan rhai gweithwyr proffesiynol y rhagdybiaeth bod aelodau o'u cymunedau nhw'n 'edrych ar ôl ei gilydd'.

Ymhellach, roedden nhw'n teimlo y dylai meddygon teulu gynnig atgyfeirio cleifion at wasanaethau yn rheolaidd a dylen nhw ddarganfod pam y byddai claf yn gwrthod y gwasanaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn llawn deall y gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw.

Dysgu allweddol

Mae meddygon teulu yn cael eu parchu'n fawr a bydd pobl yn gwneud fel y maen nhw'n cael eu cynghori. Mae meddygon teulu yn cymryd rhan bwysig iawn mewn darparu gwybodaeth am yr elusen. Mae angen sicrhau bod meddygon teulu yn deall gwasanaethau Marie Curie a'u bod yn cyfeirio cleifion o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Agweddau

Roedd cyfranogwyr yn awyddus i Marie Curie ddeall er y byddai'n well gan bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ofalu am eu hanwyliaid, nid yw hyn yn bosibl bob amser. Mae newidiadau diwylliannol fel aelodau o'r teulu yn symud i ffwrdd, pwysau ariannol ac economaidd a mabwysiadu dulliau byw gorllewinol yn awr yn gwneud gofalu am berthnasau yn heriol. Fodd bynnag, dywedodd rhai bod stigma yn parhau wrth anfon perthynas i hosbis oherwydd y gallai gael ei weld fel nad yw unigolyn yn gwneud eu gwaith fel mam, merch neu ofalwr.

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y gallai teuluoedd eu hunain fod yn rhwystr i gael mynediad at wasanaethau oherwydd ofnau fod yr hosbis yn gartref gofal a fyddai'n cymryd eu hanwyl yn oddi wrthyn nhw ac effeithio ar eu budd-daliadau.

Siaradodd cyfranogwyr am agweddau tuag at salwch yr oedd angen ymdrin â nhw, megis ofn dioddef o'r salwch, a oedd yn achosi teuluoedd a chleifion i geisio cuddio eu salwch neu eu hanabledd oddi wrth eraill.

"Mae pobl eisiau gofalu am eu rhieni, mae 95% eisiau, ond bydd hyn yn newid... oherwydd bod gan ddynion a merched swyddi."

Dysgu allweddol

Mae'n bwysig bod pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gwybod y gall Marie Curie eu helpu i edrych ar ôl eu hanwyliaid ar ddiwedd eu bywydau, mewn cyferbyniad â'i wneud eu hunain.

Rhan 2: Sut i helpu lleihau'r rhwystrau i fynediad a nodwyd

Unwaith yr oedden nhw wedi nodi'r prif rwystrau i gael mynediad at wasanaethau Marie Curie, gofynnwyd wedyn i'r grwpiau trafod sut yr oedden nhw'n teimlo y gallai'r rhwystrau hyn gael eu lleihau i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig.

Mae Diagram 2 yn crynhoi eu hatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae'r bennod hon yn amlinellu rhai o'r atebion a awgrymwyd, yn seiliedig ar ymatebion y cyfranogwyr ac mae'n tynnu sylw at y negeseuon dysgu allweddol ar gyfer Marie Curie a darparwyr gofal iechyd eraill.

Diagram 2: Barn y cyfranogwyr ar sut i leihau'r rhwystrau i wasanaethau



Atebion a awgrymwyd

Codi ymwybyddiaeth am wasanaethau

Roedd cyfranogwyr yn teimlo y gallai Marie Curie godi ymwybyddiaeth am ei gwasanaethau a'r ansawdd gofal sydd ar gael drwy roi mwy o fanylion am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, e.e. cefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr, therapiau cyflenwol, cwnsela, cymorth i gael mynediad at fudd-daliadau, therapy galwedigaethol, ffisiotherapi, cefnogaeth ar gyfer plant a nyrsys arbenigol sy'n ymweld â chleifion yn eu cartrefi.

Yn ogystal, roedden nhw'n meddwl ei fod yn bwysig i gyfathrebu'r gwahaniaethau rhwng hosbis ac ysbyty mewn perthynas ag amseroedd ymweld, ymwelwyr ar gyfer pob gwely ayyb.

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod cymunedau, meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd angen bod yn glir ynghylch ffyrdd i atgyfeirio at wasanaethau Marie Curie.

Dysgu allweddol

Roedd cyfranogwyr yn teimlo'n gryf y byddai pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn defnyddio'r gwasanaethau os bydden nhw'n gwybod eu bod yn bodoli. Mae'n bwysig ymestyn i gymunedau yn barhaus er mwyn rhoi gwybod i bobl am yr amrediad o wasanaethau a chyflyrau sy'n cael eu cefnogi gan yr hosbis.

Anghenion penodol

Cyfeiriodd cyfranogwyr y gall fod yn well gan bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wasanaethau gofal cartref yn unol â'u cefndir diwylliannol o edrych ar ôl perthnasau yn y cartref. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau fel cael eich cefnogi i allu marw gartref, ymweliadau cartref am help gyda lliniaru poen, therapy galwedigaethol a ffisiotherapi.

Roedd gwasanaethau gofal dydd yn cael eu gweld fel rhai cadarnhaol, yn cynnwys therapiau cyflenwol, cefnogaeth profedigaeth, gwasanaethau cwnsela, hawliau lles a budd-daliadau, gwasanaethau teuluoedd, gwasanaethau ymlacio a rheoli cwsg.

Yn ogystal, roedd cyfnodau byr yn yr hosbis ar gyfer rheoli poen a rheoli symptomau yn cael eu gweld yn gadarnhaol, fel roedd cyfnodau byr o seibiant.

"Mae gennym barch at nyrsys a byddem yn eu croesawu i'n cartrefi."

Dysgu allweddol

Efallai ei bod yn well gan bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wasanaethau gofal cartref - yn unol â'u cefndir diwylliannol o edrych ar ôl pobl gartref. Yn ogystal, gallan nhw ffafrio arosiadau byr yn yr hosbis ar gyfer rheoli poen, rheoli symptomau a gofal seibiant.

Hyrwyddo gwasanaethau Marie Curie yn y cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Participants said that word of mouth was a powerful way to spread information about Marie Curie services in their communities and many offered to help spread the word in their own communities.

They suggested a number of places to promote the services including community groups, community centres, leisure centres, job centres, libraries, GP surgeries, hospitals, places of worship, social media sites, schools and colleges and English for Speakers of Other Languages (ESOL) classes.

They also recommended that the charity attend community events and organise special information days at the hospice.

Participants felt that having a regular presence (eg once a month) was advantageous as people would remember the charity and what it does and would feel more comfortable asking questions and asking for information.

They also felt a DVD, available in several community languages and shown to community groups and on monitors at GP surgeries, would be an excellent tool to showcase the hospice and its services.

"Ym mhob cymuned Lleiafrif Ethnig, mae yna arweinwyr cymunedol, ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, a ellir eu defnyddio i rannu gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau Marie Curie. Mae'n bwysig dod i wybod pwy yw'r bobl hyn drwy rwydweithio."

Dysgu allweddol

Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr yn teimlo mai'r ffordd orau i godi ymwybyddiaeth o Marie Curie yw ar lafar. Roedd cyfranogwyr yn hoffi'r syniad o staff Marie Curie yn dod i siarad efo nhw a mwy o aelodau o'r gymuned yn cael eu gwahodd i'r hosbis. Byddai hyn yn rhoi gwell cyfle iddyn nhw ddeall y gwasanaethau y mae Marie Curie yn eu darparu ac i ofyn cwestiynau perthnasol.

Laith

Yn ogystal, roedd cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd cymunedol ar gyfer cleifion a gofalgwyr. Roedden nhw'n teimlo y dylai'r wybodaeth fod yn fyr ac yn syml, a dylai gynnwys delweddau amrywiol a dylai gael ei anelu'n uniongyrchol at eu cymunedau.

Dysgu allweddol

Mae gwybodaeth ysgrifenedig angen bod yn fyr, yn glir ac yn gryno gyda delweddau amrywiol, ac os yn bosibl, mewn ieithoedd cymunedol

Amgylchedd hosbis cadarnhaol

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod ymweld â'r hosbis yn hollbwysig wrth dorri rhwystrau ac roedden nhw'n awyddus i fynd â'r neges yn ôl i'w cymunedau nad oedd angen ofni'r hosbis.

Roedden nhw'n cefnogi teithiau rheolaidd i'r hosbis, wedi'u trefnu gan yr hosbis, ac yn ogystal roedden nhw'n awgrymu y gallai meddygon teulu drefnu ymweliadau i'r hosbis ar gyfer eu cleifion drwy atgyfeiriadau at wybodaeth arbennig/ sesiynau agored yn yr hosbis.

"Dymunol iawn, awyrgylch groesawgar, lle croesewir teuluoedd."

Dysgu allweddol

Mae amgylchedd a gwasanaethau'r hosbis wedi cael eu derbyn yn dda iawn wrth i bobl ymweld â'r hosbis. Mae hyn yn ffordd gadarnhaol i dorri'r rhwystrau a chael gwared o'r mythau.

Gwirfoddoli a chodi arian

Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai'n fuddiol iawn cael gwirfoddolwyr Marie Curie yn yr hosbis ac yn y gymuned a oedd yn siarad eu hieithoedd ac yn rhannu eu cefndiroedd diwylliannol.

Yn ogystal, roedden nhw'n cefnogi'r syniad o hyfforddi gwirfoddolwyr er mwyn rhannu gwybodaeth ynglŷn â Marie Curie a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Roedden nhw'n teimlo y byddai gan wirfoddolwyr fynediad da i'w cymunedau ac yn ogystal y gallen nhw helpu i dawelu meddyliau cleifion, gofaluwr a theuluoedd a'u cynorthwyo i deimlo'n llai unig.

Yn ogystal, awgrymodd cyfranogwyr y dylai Marie Curie wneud peth gwaith gyda chymunedau ynghylch codi arian, fel gofyn i grwpiau cymunedol, siopau a chanolfannau gymryd blychau codi arian.

"Os ydych chi'n siarad iaith arall, rydym eich angen!"

Dysgu allweddol

Mae pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gwirfoddoli drwy'r amser yn eu bywydau o ddydd i ddydd, ond nid yndyn nhw'n ei weld, nac yn ei alw, fel gwirfoddoli. Mae pobl yn awyddus i helpu codi arian a gwirfoddoli a pheidio â chael eu gweld fel defnyddwyr gwasanaethau yn unig.

Rhan 3: Newidiadau a wnaed ac a gynlluniwyd yn Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro er mwyn gwella mynediad ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.


Mae Marie Curie yn hynod ddiolchgar i'r grwpiau trafod am eu mewnwelediadau ac am faint ac ansawdd gwirioneddol eu hadborth.

Rydym wedi gwerthuso eu holl adborth yn ofalus ac rydym wedi defnyddio eu hargymhellion allweddol a'n dysgu allweddol i helpu gwneud gwelliannau i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau yn Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro. Yn ogystal, rydym wedi dechrau ymdrin â'r angen am ymarferion gwaith wedi'u diweddarau.

Byddwn yn parhau i chwilio am gyngor ar ffyrdd o dynnu rhwystrau ar gyfer mynediad a gwella gwasanaethau ar gyfer cleifion, gofalwyr a theuluoedd o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn Ne-ddwyrain Caerdydd.

Mae Diagram 3 yn crynhoi'r newidiadau a wnaed ac a gynlluniwyd yn ein hosbis, yn dilyn adborth gan y grwpiau trafod. Yn ogystal, mae'r adran hon yn cynnwys asesiad o bob un o'r newidiadau.

Diagram 3: Newidiadau a wnaed ac a gynlluniwyd yn Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro.



Newidiadau sydd wedi'u gwneud a'u cynllunio yn Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro

Amgylcheddol

Mae ystafell ddistaw'r hosbis, sydd ar gael i gleifion a theuluoedd ar gyfer gweddi aml-ffydd, wedi cael ei gwella. Yn awr, mae'n cynnwys arteffactau sydd wedi cael eu rhoi gan grwpiau crefyddol.

Yn ogystal, rydym yn archwilio'r cyfleusterau ymolchi, yn cynnwys gosod basn traed a bidet yn y tŷ bach wrth ymyl yr ystafell ddistaw fel y gall pobl ymolchi cyn gweddio.

Mae ein hosbis yn sefydlu trefn er mwyn sicrhau bod bwyd ar gyfer dathlu ar gael i'r holl gleifion a'r staff ar ddyddiadau penodol yn y calendr fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Yn ogystal, rydym wedi dechrau ymdrin â materion a all effeithio ar deuluoedd o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, fel troliau diodydd yn yr hosbis a'r peryglon iechyd a diogelwch sydd ynghlwm os gofynnir i staff dynnu'u hesgidiau pan maen nhw yng nghartrefi pobl.

Atgyfeirio

Rydym wedi cyflwyno ffurflen beilot ar gyfer atgyfeirio gan gymunedau fel y gall sefydliadau cymunedol atgyfeirio aelodau o'r gymuned at wasanaethau Marie Curie.

Cyfathrebu

Rydym wedi cynhyrchu a dosbarthu gwell gwybodaeth gyhoedduswydd gyda delweddau amrywiol er mwyn cyfathrebu am yr amrediad o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r cyflyrau sy'n cael eu cefnogi. Yn ogystal, mae gwybodaeth yn awr ar gael mewn ieithoedd cymunedol.

Yn ogystal, rydym yn cynhyrchu DVD i arddangos ein hosbis a'i gwasanaethau i bobl na all ymweld â'r hosbis yn bersonol.

Mae gennym gardiau cyfathrebu i'w defnyddio gyda chleifion lle gall iaith fod yn rhwystr ac rydym wedi rhoi gwybod i holl staff yr hosbis bod gennym yn awr fynediad ar gyfieithwyr ar y pryd am 24 awr y diwrnod, pob diwrnod o'r flwyddyn, pe byddai cleifion, teuluoedd neu ofalwyr angen y gwasanaeth hwn. Tynnwyd sylw at hyn mewn deunyddiau cyhoedduswydd yn ogystal.

Rydym wedi ychwanegu gwybodaeth am wella mynediad at wasanaethau ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar ein prif wefan elusennol.

Gwirfoddolwyr

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol er mwyn annog gwirfoddolwyr o gefndiroedd amrywiol i ddod ynghlwm â'n hosbis.

Gweithio gyda staff

Rydym wedi sefydlu angen i wella ymwybyddiaeth staff ar nifer o faterion ac rydym wedi dechrau ymdrin â nhw. Y materion hyn yw:

- Amrywiaeth o ymarferion diwylliannol a chrefyddol.
- Anghenion diwylliannol, crefyddol a deietegol rhai cleifion.
- Dyddiadau allweddol yn y calendr aml-ffydd a dyddiadau pwysig penodol eraill a all effeithio ar gleifion.
- Sensitifrwydd ynghylch profiadau pobl o wasanaethau eraill er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall pam y gofynnir rhai cwestiynau iddyn nhw.
- Natur amrywiol grwpiau teulu, yn cynnwys teuluoedd cymysg Gwyn a Lleiafrif Ethnig.

Yn ogystal, rydym wedi sefydlu angen am well gwybodaeth monitro cleifion a chreu adnodd ddysgu ar gyfer holl staff Marie Curie er mwyn hyrwyddo ymarfer da mewn perthynas â gwella amrywiaeth.

Bylchau mewn gwasanaethau gofal iechyd

Mae ein trafodaethau wedi nodi'r angen am gefnogaeth gymdeithasol ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gyda salwch angheuol. Yn ogystal, mae angen cyffredinol am wasanaethau cwnsela sy'n

Cysylltiadau gydag asiantaethau allanol

Rydym yn awr ar y gronfa ddata atgyfeirio ar gyfer y Gymdeithas Strôc a Diabetes UK, ac rydym wedi cyfrannu at adroddiad ar gyfer adolygiad cyflym o'r dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n edrych ar anghydraddoldebau iechyd gan bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl gydag anabledau.

Rydym yn enw cyswllt yn 'Iechyd a Lles Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig - Gwasanaethau ac Adnoddau Detholedig' gan Diverse Cymru ac rydym wedi datblygu taflen Iechyd a Lles Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer meddygon teulu mewn cydweithrediad â grŵp iechyd meddwl a lles yn yr hosbis.

Mae Cynllun Cyflawni Diwedd Bywyd Lleol BIP Caerdydd a'r Fro 2013 – 2016 yn cyfeirio at ein gwaith gyda chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac yn datgan y byddai'n hoffi, "...ehangu cysylltiadau gyda, ac adolygu canlyniadau, dolen bostio DdLIE Marie Curie a defnyddio'r rhain er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu a chyflawni gwasanaethau".

Casgliad

Mae'r prosiect hwn wedi rhoi i ni ddealltwriaeth well o anghenion gofal lliniarol pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn Ne-ddwyrain Caerdydd. Mae wedi ein galluogi i nodi'r rhwystrau at fynediad, archwilio atebion posibl a gwneud a chynllunio gwelliannau i wasanaethau a chyfleusterau yn Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro.

Mae ein gwaith yn barhaus a byddwn yn parhau i geisio cael cyngor ar ffyrdd i dynnu'r rhwystrau i fynediad a gwella gwasanaethau ar gyfer cleifion, gofaluwr a theuluoedd o'r cymunedau hyn.

Ynglŷn â Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro

Mae Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro yn darparu gofal a therapiau arbenigol yn rhad ac am ddim er mwyn i bobl gyda salwch difrifol fel canser, methiant y galon, clefyd yr ysgyfaint, methiant yr arennau a chlefyd niwronau motor gael yr ansawdd bywyd gorau posibl. Yn ogystal, gall gynnig cyngor a chefnogaeth yn rhad ac am ddim i gleifion, teuluoedd a gofalwyr.

Mae ein hosbis yma i helpu pobl i aros yn gyfforddus a theimlo gystal ag y maen nhw'n gallu, am gyn hired ag sy'n bosibl.

Mae ein tîm o feddygon, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, cynghorwyr a therapyddion yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r gefnogaeth maen nhw eu hangen.

Mae gwasanaethau wedi'u teilwra i anghenion unigol ac yn gallu cynnwys:

- gofal arbenigol ar gyfer rheoli anawsterau fel poen neu flinder
- ffisiotherapi i helpu pobl i symud o gwmpas a chadw'n egniol
- cyngor a chefnogaeth i helpu pobl i fyw gyda'u salwch

Gall bobl dderbyn y gwasanaethau hyn drwy ymweld â'r hosbis yn ystod y dydd neu, os ydyn nhw angen, aros yn ein hosbis ar gyfer gofal claf mewnol. Yn ogystal, gall ein nyrsys ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain.

Mae ein holl wasanaethau ar gael yn hollol rad ac am ddim ar gyfer cleifion a'u teuluoedd ac rydym bob amser yn anelu at ddarparu gwasanaethau sy'n sensitif i anghenion diwylliannol a chrefyddol gwahanol sydd gan bobl.

Sut y gallwn ni helpu

Gwasanaethau dydd

Mae llawer o bobl yn dod i'r hosbis ar gyfer ein gwasanaethau dydd am ychydig oriau er mwyn iddyn nhw ymdopi â'u salwch, cyfarfod â chleifion eraill a gwella eu hymdeimlad o les.

Mae gennym ddewis o wasanaethau, gweithgareddau a chefnogaeth ar gyfer cleifion a'u teuluoedd. Maen nhw'n cynnwys:

- rhaglenni ymarfer a gwybodaeth am feddyginiaethau i helpu pobl i fyw'n fwy cyfforddus gyda'u salwch
- clinigau wedi'u harwain gan ein nyrsys er mwyn i ni siarad am, ac ymdrin ag, anghenion a dewisiadau gofal y claf
- therapiau cyflenwol fel aromatherapi ac ymlacio
- grwpiau cefnogi fel y gall pobl rannu eu meddyliau a'u teimladau gydag eraill mewn sefyllfa debyg
- cefnogaeth ysbrydol gan gynrychiolwyr o wahanol ffydd fel imam, rabi neu ficer

Gallwn drefnu grwpiau neu therapyddion yn benodol ar gyfer dynion a merched, os oes angen. Mae ein gwasanaethau dydd ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener o 9.30am hyd at 4.30pm, gyda rhai sesiynau ar gael gyda'r nos.

Gofal yn y gymuned

Ar gyfer cleifion na allan nhw ddod i'r hosbis, mae gennym nyrsys arbenigol a all ymweld â phobl yn eu cartrefi er mwyn darparu cyngor a chefnogaeth.

Gofal cleifion mewnol

Gall cleifion gyda phoen cyson neu'r rhai hynny sy'n agos iawn at ddiwedd eu bywydau ddod i'r hosbis ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol. Fel arfer, mae cleifion gyda phroblemau fel poen neu ddiffyg anadl yn dod i mewn am gyfnod fel y gallwn ni eu helpu i deimlo'n fwy cyfforddus cyn iddyn nhw allu dychwelyd adref.

Yn ein cyfleusterau cleifion mewnol, rydym yn cynnig:

- nifer o ystafelloedd sengl gydag ystafelloedd ymolchi en-suite
- bwyd sy'n darparu ar gyfer anghenion deietegol penodol diwylliannau a ffydd ein cleifion
- ystafell ddistaw y gall cleifion a theuluoedd o unrhyw ffydd ddefnyddio fel ystafell weddio
- ystafelloedd lle gall teuluoedd treulio amser gyda'i gilydd
- oriau ymweld hyblyg

Cysylltwch â ni

Tîm Nyrsio Cymunedol
Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro
Heol Bridgeman, Penarth CF64 3YR
Ffôn: 029 2042 6000
E-bost: cardiff.hospice@mariecurie.org.uk

Mae Gofal Canser Marie Curie'n rhoi dewis i bobl gyda salwch terfynol i farw yn eu cartref. Mae ein nyrsys yn rhoi gofal uniongyrchol a chymorth emosiynol am ddim iddynt hwy a'u teuluoedd, yn eu cartrefi eu hunain hyd at y diwedd.

mariecurie.org.uk

